

# S.M.S. y Ddines Newydd gan Mari Ellis

Nid yw'r enw *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* ar glawr llyfr yn debyg o ddenu darllenwyr heddiw, o unrhyw oed. Mae golwg y gyfrol a gyhoeddwyd gan yr enwog Hughes a'i Fab, Wrecsam yn 1907, gyda darlun wyneb-ddalen o lond capel o gynulleidfa a gwraig ar ei gliniau o'u blaen, yn fwy tebyg o godi gwên na chodi awydd i ddarllen. Diwygiad Evan Roberts, 1904-05 yw'r cefndir a dywed yr awdur, S.M. Saunders yn y Rhagymadrodd iddi weld effeithiau daionus y diwygiad ar gymdeithas wledig.

Unwaith y byddwch wedi magu plwci i ddarllen ymlaen, 'chewch chi mo'ch siomi. Golwg ysgafn a gawn ar drigolion Pentre Alun, y crefftwyr arferol megis y gof a'r saer, y tŷ capel a'r mân dyddynnod ac ambell fferm sylweddol.

Amrywia'r cymeriadau, rhai'n garedig a thosturiol, llawer yn dlawd, yn anwybodus a rhagfarnllyd, y mwyafrif bron â bod yn uniaith Gymraeg. Nid oes yma ddim ymgais i ddelfrydu'r cymeriadau nac i ramantu. Adroddir yr hanes gan y gweinidog, er nad yw hynny'n rhy amlwg wrth ddarllen. Yr hyn sy'n gwneud y llyfr yn ddarllenadwy yw synnwyr digrifwch yr awdur, yn enwedig wrth ymdrin â'r merched. Dyma Poli Pat:

'...Poli Williams, druan, neu fel y gelwid hi yn gyffredin Poli Pat. Yr oedd ganddi frawd yn Patagonia... yr oedd yn anhawdd meddwl am un pechod nad ydoedd Poli wedi bod yn euog ohono. Os byddai ceiniog ganddi byddai yn yfed nes meddwi. Os na fyddai ceiniog ganddi dywedid ei bod yn fedrus fel lladrones. Yr oedd yn byw mewn anfoesoldeb a phechod cyhoeddus...'

Darbyllwyd hi i ddyfod i'r cwrdd gweddi gan y cymeriad hunan-gyfiawn Jobiah Jenkins, a phan holwyd hi gan y blaenor William Griffith o flaen y gynulleidfa,

'Ydech chi yn gofidio llawer am eich pechodau, Poli fach?' 'Nagw wir, William Griffith,' meddai Poli'n sionc. 'Mae digon o waith gen i i dreio byw o ddwrnod i ddwrnod heb drafferthu am y dydd sydd wedi mynd heibio.'


Aeth ymlaen i gwyno ei bod yn cael ei beio am droseddau na chyflawnodd erioed. Mentrodd y blaenor ddweud wrthi,

'Mari, yr ydych yn meddwl mai pechadures ydych, eich bod wedi arwain bywyd drwg iawn?'

Atebodd ef yn gynhyrfus:

'Nid dwad yma i gael fy insyltio wnes i... dydw i ddim yn proffesu bod yn ddines dda, ond wy i llawn cystal a hanner y menywod sydd yma heno.'

Mewn dipyn o benbleth cyfaddefodd y blaenor mai pechaduriaid oedd pawb ohonynt, ond cafodd lond pen:



*Wyneb-ddalen y Diwygiad ym Mhendref Alun.*

'Dyna chi yn siarad sens yn awr... Dim iws i bobol geisio dweud... mai seintiau ydyn nhw; mi allwch chi dwylo y pregethwyr a'r blaenoriaid diniwed ond yr wy i yn gwybod fy mod mor dda a hanner y gwagedd sydd yma.'

\* \* \*

Dyma Sarah Thomas wedyn, nad oedd ganddi fawr o olwg ar ei gŵr:

'Mae Twm yn hen greadur dwl ddigon, 'does fawr synnwyr ynddo, ond fe wnaiff beth wedwch chi wrtho. Dydw i ddim yn credu yn y gwasanaeth priodi yna, - gofyn i ddines a synnwyr yn ei phen addaw ufuddhau i ddyn dwl, 'does dim synnwyr mewn peth fel yna. Pan welwch chi Twm fe fyddwch yn cyd-weld â fi...'

Nid oedd y diwygiad yn apelio dim at Twm,

'...does gen i ddim ffansi yn yr holl swm a'r canu a'r clebran sy'n mynd ymlaen y dyddiau hyn.'

er fod Sarah yn dannod iddo y merched bach deuddeg oed oedd yn gweddi bob nos yn y capel,

'Ffitiach bod nhw yn eu gwelyau,' oedd ateb Twm.

\* \* \*

Gwraig alluog, weithgar yn y capel oedd Mrs Powell, Tynrhos,

'...feallai nad oedd yn

boblogaidd iawn, - yr oedd yn rhy alluog i fod felly...'

Ond pan aeth i'r seiet yn argyhoeddedig mai pechadures fawr ydoedd,

'...ac yn symud trwy'r gymdogaeth fel fflam o dân...'

Ceir y sylw, gan y gweinidog, mae'n debyg, er nad yw'n glir pwy sy'n siarad,

'...byddai rhai ohonom yn gofyn i'n gilydd - sut yn y byd y cadwodd eglwys Dduw at ei gilydd os oedd o'i mewn gyneifer o ragrithwyr?'

Sylw'r gweinidog eto:

'Mae Pentre Alun yn hoff o angladdau, ac y mae pawb yn teimlo fod yn ddyletswydd arnynt i weled fod eu cymdogion yn cael eu claddu'n daclus.'

\* \* \*

Bu Sarah Thomas yn briod deirgwaith. Ni allai fforddio prynu dillad duon i alaru ar ôl ei gŵr cyntaf, ond

'...priodais i yn dda yr ail dro,' meddai, 'mi es i gydag ef i lawr i'r Sowth. Dyna le melltrigedig. Mae Pentre Alun yn ddigon drwg, ond y mae y Sowth cynddrwg ag uffern...'

Rhoes ei hail ŵr arian iddi i brynu dillad ar gyfer mynd i'r cwrdd ar y Sul, gan ei hatgoffa ei fod ef yn flaenor,

'...ac y mae'n rhaid i chi wisgo'n daclus.'

Ond gwelodd Sarah ei chyfle i gael dillad 'i fwrnio' ei gŵr cyntaf yn briodol.

'Mi brynais ffroc ddu dda - *French merino* a mynnais iddyn nhw ei thrimio gyda *chrepe*; mynnais fonet *grepe* hefyd a menyng duon.'

Ond pan welodd ei gŵr y dillad amdani fore Sul,

'Anwyl y byd,' meddai, 'beth sydd arnat ti? Wyt ti'n meddwl yr â i'r cwrdd gyda hen elor-gerbyd fel ti?'

Y gweinidog eto:

'Ni welais i neb erioed yn "mwynhau" gofid fel Mrs Roberts. Yr oedd Dick Tŷ Hen, yn ei ffordd watwarus yn ei galw "Llyfr y Galarnad", ac yn dweud fod ei llygaid yn dechrau bywiogi pan glywai am ddamwain, a bod angladd iddi fel talpau o siwgr gwyn i blentyn.'

Gŵr gweddwy gyda dwy ferch oedd Idwal Harries. Pan aned yr efeilliaid dywedodd y forwyn i'w meist'r ffromi'n ofnadwy a dweud,

'Bysen i yn byw yn China... gallaswn daflu y ddwy i'r afon, a dyna ddiwedd ohonynt, ond mae yr hen gyfraith ddwl yma yn clymu dwylo pobl. Allwn i wneud yn eitha gyda bechgyn i

helpu ar y fferm, ond beth alla i wneud â dwy lodes?'

\* \* \*

Ffaeleddau mwy cyffredin oedd rhai Ifan Jones y Felin:

'...ym mhob ardal y mae rhyw un person sydd yn tynnu llinyn mesur dros bawb a phopeth... Os nad oedd gŵr y Felin yn un da am gyfrannu, 'doedd dim dwywaith nag ydoedd yn un da am farnu ei gyd-ddyn.'

Ond fe welai Sarah Thomas rinwedd yn hynny:

'...rwy'n blino ar y bobol yna sydd byth yn gweld bai; mae nhw fel y menyng Saesneg yna, heb ronyn o halen ynddo i roddi blas.'

\* \* \*

Cyhoeddodd S. M. Saunders gyfrol arall yn 1908, *Llithiau o Bentre Alun*. Yr oedd *Llon a Lleddf*, casgliad o straeon a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Y Drysorfa a'r Ymwelydd Misol* wedi ymddangos yn 1897.

Mae'r ymddiddan i gyd yn nhafodiaith sir Aberteifi a Llangeitho, ei chynefin, ac mewn un ystyr mae hynny'n rhyfeddol gan mai Saesneg a siaradai gyda'i rhieni a'i brodyr a'i chwiorydd, ac fe'i haddysgwyd gartref gan *governess* o Saesnes. Fe'i ganed yn 1864 a'i bedyddio yn Sara Maria. Hi oedd merch hynaf R. J. Davies a Frances Davies, Cwrtmawr, Llangeitho, y ddau o dras Methodistaidd amlwg. Yr oedd ei thad yn ŵyr i David Charles, Caerfyrddin a'i mam yn ferch i'r Parch. David Humphreys, ŵyr i Peter Williams, yr esboniwr. Yr oeddent yn aelodau yng nghapel enwog Daniel Rowland, a chynhelid Ysgol Sul lewyrchus yng nghegin y Cwrtmawr am fod y capel ddwy filltir i ffwrdd. Siaradai'r teulu yn Gymraeg gyda'r cymdogion a phobl y capel, ac yr oedd pob un yn olau yn y Beibl Cymraeg. Arferiad cymdeithasol yr oes oedd y siarad Saesneg ar yr aelwyd, dyna 'iaith addysg', ac felly y siaradai teuluoedd o safle cymdeithasol uwch na'r cyffredin. Ond dengys arddull fyrlymus *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* fod gan Sara afael sicr ar yr iaith Gymraeg.

Ei huchelgais yn blentyn oedd cael bod yn genhades, ond nid oedd ei rhieni'n fodlon. Mae yna stori amdani yn gosod rhes o blant bach i eistedd wrth glawdd cae, eu hwynebau a'u dwylo wedi eu pardduo, a hithau'n sefyll o'u blaenau'n eu 'dysgu'. Daeth ei thad yno a gofyn beth oedd hi'n wneud, a dyma hi'n ateb:

(parhad ar dudalen 17)